

**Cofnodion cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2016
ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

YN BRESENNOL

Y Cyng. W Tudor Owen, Cynrychiolydd y Cyflogwr (Cadeirydd)

Y Cyng. Brian Dunn, Cynrychiolydd y Cyflogwr

Y Cyng. J Rodney Skelland, Cynrychiolydd y Cyflogwr

Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân a Thrysorydd am y Tro, i gynghori

Julie Brown, Pennaeth Cyllid, i gynghori

Richard Fairhead, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân

Ruth Simmons, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân

Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr

Paul Scott, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr

Sandra Williams, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr

Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, Cofnodydd

YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Delyth Macrae, Cynrychiolydd y Cyflogwr

Shane Price, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2015 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Nodwyd y materion a ganlyn a oedd yn codi o'r cofnodion:

4.2 Os oedd cynghorwyr wedi cael hyfforddiant ar bensiynau yn eu cynghorau, nodwyd y gallent anfon eu cofnod hyfforddiant at y Swyddog Cyswllt Aelodau ar gyfer cofnodion yr ATA.

4 MODIWL GWRTHDARO RHWNG BUDDIANNAU

4.1 Mae disgwyl i aelodau LPB gyflawni modiwlau hyfforddiant ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau, felly ymhob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol bydd yr aelodau'n gweithio gyda'i gilydd i fynd drwy un modiwl ymhob cyfarfod a chwblhau'r asesiad fel grŵp.

4.2 Aeth y Rheolwr Pensiynau â'r aelodau drwy'r modiwl ar wrthdaro rhwng buddiannau ac felly cwblhawyd yr asesiad. Roedd amcanion dysgu'r modiwl yn cynnwys y canlynol: y gwahaniaeth rhwng gwrthdaro gwirioneddol rhwng buddiannau a gwrthdaro posibl rhwng buddiannau; y canlyniadau posibl o fethu â rheoli gwrthdaro posibl rhwng buddiannau; y broses ar gyfer canfod, ymchwilio a rheoli gwrthdaro posibl rhwng buddiannau.

4.3 Bu'r Aelodau'n trafod gwahanol agweddau ar y wybodaeth sydd yn y modiwl gan ofyn am gyngor ynghylch gollyngiadau (*dispensations*) ar gyfer aelodau. Cytunwyd i ofyn am gyngor gan y Clerc ynglŷn â'r mater ac am gael rhagor o wybodaeth i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Cadeirydd mai mater i'r aelod oedd datgan buddiant a gofyn am gyngor gan y Clerc os oes angen.

4.4 Bu'r Aelodau'n trafod 'pwysigrwydd cael nifer gyfartal o gynrychiolwyr i'r cyflogwr ac i'r aelodau ar y bwrdd pensiwn', nodwyd bod aelodaeth o'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys dau aelod o bob undeb a phedwar aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub, ac er mwyn cael proses bleidleisio gytbwys gallai un aelod o bob grŵp cynrychiolaeth bleidleisio.

4.5 **PENDERFYNWYD**

- (i) **nodir modiwl hyfforddi ar y gwrthdaro rhwng buddiannau; a**
- (ii) **gofyn am ragor o wybodaeth gan y Clerc ynglŷn â gollyngiadau.**

5 Y DIWEDDARAF AM GYFATHREBU EFFEITHIOL

5.1 Rhoddodd y DSBT wybod i'r aelodau am y gwahanol ddulliau a ddefnyddir i roi gwybodaeth am bensiynau i'r staff, sy'n cynnwys erthyglau yn y Fflam, y cylchgrawn i'r staff, a diweddariadau rheolaidd yn y Briff Wythnosol a gyhoeddir ar y fewnwyd.

5.2 Cafwyd gwybodaeth hefyd gan Gronfa Bensiwn Dyfed ynglŷn â'r ffyrdd y mae'n cyfathrebu â'r staff, a nodwyd bod yr offer 'fy mhensiwn ar-lein' yn cael ei ddefnyddio i uwchlwytho'r datganiad pensiwn blynyddol a bod cylchlythyrau'n cael eu cynhyrchu ar hap. Hefyd, mae adran benodol ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer gwybodaeth am bensiynau diffoddwyr tân.

5.3 Cadarnhawyd hefyd fod y data pensiynau'n cael ei archwilio bob blwyddyn, a hynny'n fewnol a gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff archwiliadau mewnol eu gwneud ar y gyflogres bensiynau a'r systemau TGCh, ac mae lefel y sicrwydd diweddar ar ôl adolygiad yn cael ei ystyried yn 'uchel', sy'n dangos bod rheolaethau da'n cael eu defnyddio'n gyson, a hynny ar risg isel o beidio â chyflawni amcanion a risg isel o dwyll ariannol, esgeulustod, colled a niwed i enw da.

5.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfathrebu ynghylch pensiynau â'r staff.**

6 CYNLLUN PENSIWN ADDASEDIG

6.1 Rhoddodd y Rheolwr Pensiynau gyflwyniad ar gynllun pensiwn diffoddwyr tân y system RDS, a elwir hefyd yn Gynllun Pensiwn Addasedig Newydd y Diffoddwyr Tân (*New Modified Firefighter Pension Scheme - NMFPS*) 31/12/2014.

6.2 Dechreuodd y cyflwyniad gyda golwg gyffredinol o'r gwahanol gynlluniau pensiwn sy'n bodoli ar gyfer diffoddwyr tân, sef:

- Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 1992
- Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân 2007

- Cynllun 2015
- Cynllun Pensiwn Addasedig Newydd y Diffoddwyr Tân (NMFPS)

6.3 Cyn 2006, nid oedd staff y system RDS yn gymwys i ymuno â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân 1992, ac yn dilyn camau cyfreithiol cyflwynwyd yr NMFPS i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y ffordd roedd diffoddwyr tân y system RDS yn cael eu trin.

Mae'r cynllun pensiwn addasedig newydd yn diwygio darpariaethau 2007 er mwyn rhoi gwell buddion yn unol â chynllun 1992.

6.4 Esboniodd y Rheolwr Pensiynau beth yw'r gwahanol gategoriâu aelodaeth, cymhwysedd a manteision y cynllun. Nodwyd bod pecynnau gwybodaeth wedi cael eu hanfon at yr holl unigolion cymwys, 643 i gyd; y dyddiad cau yng Nghymru ar gyfer dewis ymuno â'r cynllun oedd 29/02/16. O fewn Gogledd Cymru, dewisodd 25% o'r unigolion cymwys ymuno â'r cynllun. Cafodd yr Aelodau wybod hefyd fod y cynllun newydd yn gysylltiedig ag achos cyfreithiol yn ymwneud â chyflog cyfartal felly ni ellid cael estyniad i'r dyddiad cau. Ond, mae Cynllun y Diffoddwyr Tân 2015 ar gael ar gyfer yr holl weithwyr gweithredol newydd. Bu'r aelodau'n trafod yr wybodaeth ac yna **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**